**Hysbysiad Archwilio - Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De**

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Cyngor Rhondda Cynon Taf yn llofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac yn ardystio ei fod yn cyflwyno trosolwg gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Mai 2025.

Mae Rheoliad 10(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud hi'n ofynnol, yn dilyn ardystiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol, a Chadeirydd y Cydbwyllgor, y cyfeiriwyd ato uchod, bod Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon sydd wedi cael ei archwilio. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2025.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliadau o ran amserlen estynedig ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yr awdurdod cyfrifol, wedi adolygu ei amserlen o ganlyniad i hynny. Er bod yr archwiliad y datganiad cyfrifion wedi ei gwblhau ac wedi ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor ar 18 Gorffennaf 2025, oherwydd bod y cyfrifon ar gael i etholwyr llywodraeth leol ymarfer eu hawliau o dan Adran 30 ac Adran 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 tan 1 Awst 2025, nid oes barn archwilio wedi ei darparu erbyn 31 Gorffennaf 2025. Y Datganiad o gyfrifon a gyhoeddir yw'r datganiad o gyfrifon wedi'i archwilio.